# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y cynnig ar Gonfensiwn Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog

**At holl Aelodau'r Cynulliad:**

Anfonwyd y llythyr canlynol at y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar 17 Chwefror 2010.

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD O DAN ADRAN 104 O DDEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006**

Hoffwn eich hysbysu i Gynulliad Genedlaethol Cymru, ar 9 Chwefror 2010, benderfynu, yn unol ag adran 104(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y dylid argymell bod Ei Mawrhydi yn y Cyngor yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 103(1) o'r Ddeddf. Pleidleisiodd 53 aelod o blaid y cynnig, heb unrhyw aelodau'n pleidleisio yn ei erbyn neu'n ymatal. Cafodd y cynnig ar gyfer y penderfyniad ei gyflwyno gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn cadarnhau ichi dderbyn yr hysbysiad ysgrifenedig hwn.

## Gwybodaeth ychwanegol at y cynnig ar Gonfensiwn Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog

**At holl Aelodau'r Cynulliad:**

Anfonwyd y llythyr canlynol at y Prif Weinidog gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar 20 Chwefror 2010.

**REFFERENDWM: HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror 2010 a'r ddogfen a oedd wedi'i hamgáu, yn rhoi hysbysiad ffurfiol o benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal refferendwm ar gael rhagor o bwerau, o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion Swyddfa Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi ar yr offerynnau cyfreithiol sydd eu hangen i gynnal y refferendwm, yn unol â'ch cais.

Rwy'n ddiolchgar am eich cynnig bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein cynorthwyo, a bydd fy Nghyfarwyddwr yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol fel y bo'r angen. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos â chi a'ch Swyddfa er mwyn symud y mater hwn yn ei flaen.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2641(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, ar 22 Chwefror 2010

**At Andrew R.T. Davies:**

**HAWLIADAU ÔL-WEITHREDOL AR GYFER GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG**

Yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 9 Chwefror, roeddech yn holi am yr amserlen ar gyfer ymdrin â hawliadau ôl-weithredol am iawndal ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rwy'n cytuno â chi y dylid ymdrin â'r ceisiadau hyn cyn gynted ag sy'n bosibl ac fel imi addo, dyma ragor o wybodaeth i chi.

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd gennyf yn nodi bod 2,244 o'r ymholiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau, sef 4 Rhagfyr, yn ymwneud â'r cyfnod cyn mis Ebrill 2003. Mae 708 o'r ymholiadau'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r cyfnod ar ôl Ebrill 2003 a chyda 438 o'r ymholiadau, nid yw'n glir eto ym mha gyfnod y cyflwynwyd yr ymholiadau. Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys fydd yn gyfrifol am weinyddu'r ceisiadau a dderbyniwyd cyn mis Ebrill 2003. Y bwrdd iechyd lle mae'r unigolyn yn byw fydd yn gyfrifol am weinyddu'r ceisiadau eraill.

Erbyn hyn, dylai pawb sydd wedi cysylltu fod wedi cael llythyr sy'n cynnwys ffurflen gais yn gofyn am fanylion y cais yn ogystal â phrawf bod ganddynt hawl cyfreithiol i wneud y cais os nad yw'r hawlydd yn gallu cyflwyno'r cais ei hunan (h.y. atwrneiaeth, caniatâd i gynrychioli'r hawlydd neu lythyrau gweinyddol), yn ogystal â thystiolaeth o'r taliad.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Ombwdsmon, byddwn nawr yn anfon llythyr dilynol at yr unigolion yn gofyn iddynt anfon yr wybodaeth i'r bwrdd iechyd erbyn 17 Mai. Dim ond bryd hynny y byddwn ni'n gallu sefydlu faint o'r hawliadau hyn sy'n hawliadau sydd â thystiolaeth y bydd angen i ni eu hystyried ymhellach a faint o'r hawliadau hyn na fydd angen i ni eu hystyried ymhellach. Rydym yn disgwyl y bydd nifer o'r ymgeiswyr yn rhoi'r gorau i'r cais yn ystod y cam hwn. Yn anffodus, nid oedd yr holl wybodaeth yn y wasg yn gywir ynghylch y dyddiad cau a bydd rhai o'r ymholiadau'n debygol o adlewyrchu camddealltwriaeth ynghylch natur trefniadau'r iawndal.

Yn ogystal, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi bod yn datblygu opsiynau ymarferol i ymdrin â cheisiadau ôl-weithredol mewn dull amserol. Rwyf wedi trafod yr opsiynau hyn gyda'r swyddogion yma a chyda byrddau iechyd eraill. Mae'r opsiynau hyn yn cael eu datblygu ymhellach ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym wedi cymryd rhai camau gweithredu i ymestyn nifer y paneli. Unwaith y byddwn yn gwybod faint o geisiadau y bydd angen ymchwilio iddynt, byddwn mewn gwell sefyllfa i gwblhau'r trefniadau ar gyfer delio â'r gwaith.